**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 30ain Hydref 2002**
**Eitem: 2**

# DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
# CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
# DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
# RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
# DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990
# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**COPIAU AR GAEL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**

**CYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**30 HYDREF 2002**

**EITEM AGENDA RHIF 3**

# ADRODDIAD GAN BENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
## RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (COED) 1999
## CYNGOR SIR DDINBYCH
## TIR YN 72 FFORDD GRONANT, PRESTATYN

## GORCHYMYN GWARCHOD COEDEN RHIF 1/2002

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Rhoi adroddiad ar gyflwyno'r Gorchymyn Gwarchod Coeden a phenderfynu a ddylid ei gadarnhau.

**2. CEFNDIR**

2.1. Penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 22 Mai 2002 gael y goeden castanwydden y meirch yn 72 Ffordd Gronant wedi'i gwarchod gan Orchymyn Gwarchod Coed. Cyflwynwyd Gorchymyn Gwarchod Coed Brys yn y man uchod (copi o'r cynllun ynghlwm) ar 24 Mai 2002.

2.2. Y cyfiawnhad dros wneud y Gorchymyn yw bod y goeden yn cael ei hystyried yn agored i niwed gan fod datblygiad wedi'i gynnig ar y safle.

**3. GWRTHWYNEBIADAU**

3.1. Ni fu dim gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn.

**4. CASGLIAD**

4.1. Ystyrir y dylai'r goeden y mae'r Gorchymyn yn ymwneud â hi gael ei gwarchod o ran ei gwerth amwynder.

**5. ARGYMHELLIAD**

5.1. Y dylai Gorchymyn Gwarchod Coeden Rhif 1/2002 yn 72 Ffordd Gronant gael ei gadarnhau.

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**30ain Hydref 2002**
**EITEM AGENDA RHIF 4**

## ADRODDIAD GAN BENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

# DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

**1.1** Hysbysu'r Aelodau o ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliadau Safle y gofynnir amdanynt gan y Pwyllgor Cynllunio.

**2. DYDDIAD YR YMWELIADAU SAFLE**

**2.1** Ar ôl ymgynghori â Chyfreithiol a Gweinyddol, fe benderfynwyd mai **Dydd Llun 4ydd Tachwedd 2002** ydy'r mwyaf addas. Mae'r dyddiad hwn wedi'i neilltuo'n amodol.

**2.2** Fe'ch hysbysir, felly y bydd unrhyw ymweliadau safle a drefnir heddiw yn digwydd **Ar Ddydd Llun 4ydd Tachwedd 2002 (yn y prynhawn).**

**3. AELODAETH Y PANEL YMWELD Â SAFLEOEDD**

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol a bydd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Aelod(au) Lleol perthnasol

**4. ARGYMHELLIAD**

**4.1** **Bod yr Aelodau'n cytuno i'r Ymweliadau Safle gael eu cynnal yn ystod prynhawn Dydd Llun 4ydd Tachwedd 2002**

PWYLLGOR CYNLLUNIO
30AIN HYDREF 2002
EITEM AGENDA RHIF 5

# ADRODDIAD GAN BENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

# DIWEDDARIAD AR BENDERFYNIADAU APELIADAU

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Hysbysu'r aelodau o benderfyniadau apeliadau diweddar.

## 2. CEFNDIR

2.1 Roedd yr adroddiad ar y cynllun a'r gweithdrefnau dirprwyo a ystyriwyd yn y Pwyllgor Cynllunio ar 31ain Hydref, 2001 ac a gymeradwywyd wedyn yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 27ain Tachwedd, 2001 yn cynnig bod adroddiadau i'w cyflwyno ar grynodeb o benderfyniadau apeliadau bob chwarter yn ôl fformat penodol. Mae penderfyniadau apeliadau a dderbyniwyd am ail chwarter 2002 wedi'u hamlinellu yn yr **atodiad amgaeëdig.**

2.2 Fel y gofynnwyd gan yr aelodau rydym wedi cynnwys colofn yn dangos lefel y penderfyniad gwreiddiol (Pwyllgor neu Ddirprwyedig) ac argymhelliad y swyddogion.

2.3 Er ein bod yn falch o ateb cwestiynau ar benderfyniadau apeliadau yn y Pwyllgor Cynllunio, os oes gennych unrhyw bwyntiau manwl yr hoffech eu trafod a wnewch chi gysylltu â Mark Dakeyne neu Ian Weaver cyn y cyfarfod os gwelwch yn dda.

**Er gwybodaeth i'r aelodau y mae'r adroddiad hwn.**

**COPIAU AR GAEL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**

**CYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO: 30 Hydref 2002**
**Eitem Agenda: 6**

# ADRODDIAD DIWEDDARU AR ORFODI

# ADRODDIAD AR FATERION GORFODI CYNLLUNIO SYDD HEB EU DATRYS YR ADRODDWYD ARNYNT I'R PWYLLGOR YN FLAENOROL ER GWYBODAETH I'R AELODAU

# INDEX


| | | |
|---|---|---|
| 1. | ENF/292/97/S | Eryrys |
| 2. | ENF/554/96/S | Bryneglwys |
| 3. | ENF/575/96/S | Llanarmon-yn-Ial |
| 4. | ENF/037/95/N | Rhyl |
| 5. | ENF/102/99/S | Llangollen |
| 6. | ENF/302/98/S | Ruthin |
| 7. | ENF/006/97/S | Denbigh |
| 8. | ENF/001/96/N | St. Asaph |
| 9. | ENF/432/99/S | Llanarmon-yn-Ial |
| 10. | ENF/001/99/N | St. Asaph |
| 11. | ENF/127/00/S | Ruthin |
| 12. | ENF/534/99/S | Ruthin |
| 13. | ENF/434/99/N | 4 No. Lay-bys on A5 at Rhuallt |
| 14. | ENF/466/00/N | Prestatyn |
| 15. | ENF/133/00/S | Llandegla |
| 16. | ENF/2001/005 | Prestatyn |
| 17. | ENF/2001/004 | Prestatyn |
| 18. | ENF/2001/006 | Rhuddlan |
| 19. | ENF/147/98/S | Denbigh |
| 20. | ENF/100/01/N | Rhyl |
| 21. | ENF/2002/007 | Llandegla |
| 22. | ENF/2002/002 | Denbigh |
| 23. | ENF/2002/005 | Llanrhaeadr Y.C. |
| 24. | ENF/2002/013 | Rhyl |
| 25. | ENF/2002/016 | Llandyrnog |
| 26. | ENF/2002/015 | Rhyl |
| 27. | ENF/2002/014 | Llangollen |
| 28. | ENF/2001/010 | Denbigh |

| | | |
|---|---|---|
| 29. | ENF/2002/025 | Rhyl |
| 30. | ENF/2002/003 | Denbigh |
| 31. | ENF/2002/023 | Pentre Llanrhaeadr |
| 32. | ENF/2002/009 | Dyserth |
| 33. | ENF/287/00/S | Llanarmon yn Ial |
| 34. | ENF/184/99/S | Denbigh |
| 35. | ENF/2002/028 | Denbigh |
| 36. | ENF/307/01/S | Corwen |
| 37. | ENF/2002/021 | St. Asaph |
| 38. | ENF/2002/017 | Prestatyn |
| 39. | ENF/2002/033 | Rhyl |

COPIAU AR GAEL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**30AIN HYDREF, 2002**
**EITEM: 7**

# Penderfyniadau a wnaed gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio o dan y Pwerau a ddirprwywyd 14eg Medi 2002 - 9fed Hydref 2002

## Eitem er gwybodaeth

**Dyma restr o geisiadau lle gwnaed y penderfyniad eisoes o dan bwerau dirprwyedig. Os ydych yn dymuno trafod y cais/penderfyniad, cysylltwch â'r Swyddog Achos os gwelwch yn dda.**

## MATH O BENDERFYNIAD

| | |
|---|---|
| **CANIATAU** | **caniatáu caniatâd cynllunio** |
| **CYMERADWYO** | **cymeradwyo materion neu amod a neilltuwyd** |
| **CYDSYNIO** | **rhoi caniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu gydsynio i hysbyseb** |
| **DIM GWRTHWYNEBIAD** | **dim gwrthwynebiad i waith ar goeden/coed mewn ardal gadwraeth** |
| **PENDERFYNU** | **penderfynu nad oes angen cymeradwyaeth o flaen llaw neu ei fod yn cael ei roi pan benderfynir ar y cais (gweithiau telecom ac amaethyddol penodol)** |
| **DAT. A GANIATEIR** | **canfyddwyd fod y cynnig yn ddatblygiad a ganiateir ar ôl derbyn y cais** |
| **TYNNU YN ÔL** | **y cais wedi'i dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd** |
| **GWRTHOD** | **gwrthod pob math o gais** |

**COPIAU AR GAEL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**